

# SL(6)065 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2021

## Cefndir a Diben

Mae paragraff 2(1) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("**Deddf 1988**") yn darparu bod gwerth ardrethol hereditament annomestig yn cael ei ystyried yn swm sy'n hafal i'r rhent yr amcangyfrifir y gellid disgwyl yn rhesymol gosod yr hereditament amdano o flwyddyn i flwyddyn, yn ddarostyngedig i ragdybiaethau penodedig.

Yn yr achosion hynny pan nad oes gwybodaeth ar gael am y farchnad rentu gyffredinol ac na ellir defnyddio elw a cholled fel awgrym o werth rhent, penderfynir, yn hytrach, ar werth ardrethol hereditament annomestig drwy 'ddatgyfalafu' cyfanswm gwerth cyfalaf amcangyfrifedig yr hereditament. Caiff y cyfraddau datgyfalafu perthnasol eu rhagnodi yn rheoliad 2 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) 1989 ("**Rheoliadau 1989**").

Mae'r [Rheoliadau](#) hyn, a fydd mewn grym o 9 Tachwedd 2021, yn diwygio'r cyfraddau datgyfalafu ar gyfer rhestrau ardrethu annomestig a gaiff eu llunio ar neu ar ôl 1 Ebrill 2023.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### 1. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau pwnc yn diwygio rheoliad 2(1G) o Reoliadau 1989 fel ei fod yn cyfeirio at restr ardrethu annomestig yng Nghymru "compiled on 1 April 2021".

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro diben y drafftio hwn o gofio mai effaith adran 54A o Ddeddf 1988 (fel y'i diwygiwyd) yw ei gwneud yn ofynnol i'r rhestrau annomestig y cyfeirir



atynt yn adrannau 41 a 52 o'r Ddeddf honno gael eu llunio yng Nghymru ar 1 Ebrill 2017, ar 1 Ebrill 2023 ac ar 1 Ebrill ym mhob pumed flwyddyn wedyn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

### Pwynt Craffu Technegol:

Effaith Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) (Diwygio) (Cymru) 2021 yw diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) 1989 drwy fewnosod rheoliadau 2(1H) a (2H) er mwyn rhagnodi'r cyfraddau datgyfalafu ar gyfer hereditamentau penodol yng Nghymru ar gyfer rhestrau ardrethu annomestig a gaiff eu llunio ar 1 Ebrill 2023 neu ar ôl hynny.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried sylwadau'r Pwyllgor ac mae'n cytuno mai effaith adran 54A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (fel y'i diwygiwyd) ('Deddf 1988') yw bod rhaid i restrau ardrethu annomestig (a bennir yn adrannau 41 a 52 o'r Ddeddf honno) gael eu llunio yng Nghymru ar 1 Ebrill 2017, ar 1 Ebrill 2023 ac ar 1 Ebrill ym mhob pumed flwyddyn ar ôl hynny.

Mewnosodwyd rheoliadau 2(1G) a 2(2G) o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) (Rhif 2) 1989 gan offeryn statudol (2019/1477) yn 2019 gan ragweld y byddai Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) 2019 Llywodraeth y DU yn cael y Cydsyniad Brenhinol, gan ddarparu mai 1 Ebrill 2021 fyddai'r dyddiad ar gyfer llunio'r rhestr ardrethu nesaf yng Nghymru. Ni chafodd y Bil hwnnw ei ddeddfu, fodd bynnag. Cafodd y Bil ei ollwng a chyflwynwyd Bil dilynol, a chafodd Deddf Rhestrau Ardrethu Annomestig 2021 y Cydsyniad Brenhinol ar 15 Mawrth 2021, gan ddiwygio adrannau 54A(4)(b) a (5)(b) o Ddeddf 1988 i ddarparu bod y rhestrau ardrethu nesaf i'w llunio ar 1 Ebrill 2023.

Mae'r dull drafftio a ddefnyddiwyd yn yr offeryn hwn yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd wrth wneud diwygiadau blaenorol i offeryn 1989. Effaith gyfreithiol y diwygiadau i offeryn 1989 yw y bydd y cyfraddau a ragnodwyd ar gyfer rhestr ardrethu a luniwyd ar 1 Ebrill 2017 yn parhau i gael effaith hyd nes y caiff rhestr ardrethu ei llunio ar 1 Ebrill 2023 neu ar ôl hynny.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 1 Tachwedd 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

